Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

30 Ionawr 2013

Annwyl Gadeirydd

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trafod amserlennu cyfarfodydd pwyllgor ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ein cyfarfod diwethaf, gwnaethom drafod y papur atodedig sydd yn gynnig i gynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid mewn cylchdro â'r pum pwyllgor craffu sy'n cwrdd yn wythnosol. Byddai hyn yn golygu bod pob pwyllgor yn cwrdd am hanner diwrnod yr wythnos - naill ai ar fore dydd Mercher, bore dydd Iau neu brynhawn dydd Iau. Byddai bore dydd Mawrth ar gael pe bai unrhyw un o'r chwe phwyllgor sy'n cwrdd yn wythnosol a'r Pwyllgor Cyllid angen amser ychwanegol i gwrdd.

Cyn inni benderfynu ar hyn, byddai'r Pwyllgor Busnes yn hoffi clywed eich barn ar y cynigion. Hoffwn eich gwahodd hefyd i drafod y mater gydag eich aelodau pwyllgor.

Er mwyn inni allu gwneud penderfyniad mewn da bryd ar gyfer pennu amserlen tymor yr haf, a wnewch chi roi eich ymateb i mi erbyn dydd Mercher 13 Chwefror.

Rosemary

**Rosemary Butler AC, Llywydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8911
Ebost/Email: private.office@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh